



TGAU ADRODDIADAU ARHOLWYR

**TGAU (NEWYDD)
CYMRAEG AIL IAITH**

HAF 2019

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC fel a ganlyn: <https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=en>

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn rhoi canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

Cymraeg Ail Iaith Uned 1

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

HAF 2019

Sylwadau cyffredinol

Dyma'r ail gyfle asesu eleni ar gyfer yr uned gyntaf gyda gofyn unwaith yn rhagor i ymgeiswyr ymateb i bynciau gweledol a thrafod ystod o gyd-destunau gwahanol. Ein nod ydy meithrin siaradwyr newydd yr iaith, dysgwyr fydd yn ymfalchïo wrth ddysgu'r Gymraeg, ond hefyd fel pobl ifanc sydd yn ymwybodol o'u hetifeddiaeth a chyfoeth diwylliant Cymru. Dyna ein dymuniad a'n gobaiwrth i ni wynebu'r cwrciwlwm newydd.

Sylwadau am yr uned

Eto eleni rhaid pwysleisio fod y sgil yma yn newydd i'n hathrawon a'r ymgeiswyr eu hunain. Mae'n ddull gwbl wahanol o asesu y gwrando a'r siarad ond eto mae'n gyfle i brofi dealltwriaeth a'r gallu i drafod yn synhwyrol mewn grŵp. Mae'r uned hon yn mynnu newid, a'r newid hynny yn gofyn i'n hymgeiswyr siarad Cymraeg mewn ffordd ymarferol a naturiol yn lle trafod testunau parod.

Yn gyntaf felly, mae angen cyfeirio at system Surpass. Roedd modd lanlwytho samplau yn ddi-drafferth gan gynnwys ffurflenni marciau. Rhaid atgoffa canolfannau o'r angen i nodi enwau'r grwpiau cyflawn ar y ffurflenni ynghyd â marciau'r elfennau unigol. Mae hyn yn hwyluso'r gwaith safoni a sicrhau bod rhaniad y marciau yn glir i bawb.

Yna, mae angen trafod y clipiau gwahanol. Cafwyd dewis o ddeuddeg clip fideo ar draws y tridiau gyda dewis o ddau ar gyfer pob cyfnod asesu. Roedd yna drawsdoriad o is-dopigau o fewn y clipiau gan gynnig opsiynau i ymgeiswyr o bob gallu eu trafod. Ar y cyfan roedd canolfannau yn dewis y clip fideo addas i'w hymgeiswyr a lleiafrif bychan iawn oedd wedi dewis yn gaeth. Sbardunau poblogaidd eleni oedd byw yng Nghymru, bod yn enwog, yr amgylchedd, prosiect yr ysgol a chodi arian at Blant mewn Angen. Roedd y trafod yn fywiog, ac yn berthnasol, gyda nifer yn llwyddo i drafod ystod o bwyntiau diddorol o fewn yr amser. Roeddent yn defnyddio ystod o batrymau iaith ac yn amrywio amser a pherson y ferf yn llwyddiannus. Roedd eraill yn trafod ar lefel arwynebol ond eto roedd yr ymdrech a'r gallu i ffurfio brawddegau a barn sylfaenol yn amlwg.

Mae rôl yr athro yn rhan allweddol o'r uned hon. Athrawon sydd â'r gallu i symud trafodaeth yn ei blaen, i gynorthwyo ar adegau lletchwith, i ganmol ymdrechion ymgeiswyr ac i sicrhau nad oes neb yn gorfod straffaglu yn ddi-drefn am amser. Mae angen dangos ymgeiswyr ar eu gorau, a cheir rhwydd hynt i athrawon helpu pan fo angen. Serch hynny, roedd eisiau osgoi cyfieithu yn ddi-angen ar brydiau yn lle symleiddio'r Gymraeg neu arall-eirio'r cwestiwn.

Mae'r sbardun ei hun yn holl-bwysig a rhaid i ymgeiswyr drafod y cyd-destunau sy'n deillio o'r sbardun yn gyson. Disgwylir iddynt gyflwyno a chyfnewid ffeithiau, mynegi barn yn effeithiol, cytuno ac anghytuno yn bersonol ac ymestyn ambell dopig yn ehangach. Roedd mwyafrif helaeth yr ymgeiswyr yn gwneud hyn ac yn trafod yn hyderus ac yn llawn.

Roeddent yn ymateb i'r pynciau dan sylw ac yn trafod profiadau personol ynghyd â gobeithion neu ddyheadau i'r dyfodol. Lleiafrif yn unig a oedd yn cyflwyno pytiau a ddysgwyl ar gof cyn cyrraedd yr ystafell arholi, a hynny yn gwbl amherthnasol i gynnwys y sbardun ac i natur yr asesiad. Nid yw hyn yn dderbyniol ar unrhyw gyfrif.

Cyfathrebu sy'n bwysig wrth ystyried y gwaith llafar. Nid oes disgwyl perffeithrwydd ond sgwrsio a thrafod ystyrion sy'n adlewyrchu dealltwriaeth ymgeiswyr ac yn rhoi cyfle iddynt gyfnewid gwybodaeth a barn gydag eraill ar ystod o dopigau. Dyma bwrpas yr uned hon a braf yw nodi bod mwyafrif helaeth y canolfannau eleni wedi deall hyn yn glir.

Targedau:

- Mae angen sicrhau bod ymgeiswyr yn trafod cynnwys y clip fideo yn gyson yn ystod yr asesiad er mwyn ateb gofynion y dasg. Disgwylir iddynt ymestyn y trafod ond i'r gwaith hynny ddeillio o themau'r clip ei hunan bob tro.
- Rhaid adolygu dulliau cwestiynau yn drwyadl a sicrhau bod gwaith grŵp yn datblygu ar draws y cyfnodau asesu fel bod ymgeiswyr yn hyderus, a bod modd iddynt gydweithio yn bwrpasol.
- Gan fod ystod o dopigau yn ymddangos ar y sbardunau gweledol, rhaid sicrhau bod y dysgu blaenorol yn paratoi ymgeiswyr at yr amrywiaeth a'r her, wrth iddynt gael cyfle i ymateb i bynciau o bob math. Rhydd hyn gyfle iddynt fod yn fentrus, gwella ynganiad a deall nod yr uned yn glir.
- Mae safoni mewnol canolfan unigol yn rhan annatod o'r holl broses er mwyn cadw cysondeb ar draws yr adran ond hefyd er mwyn cynorthwyo athrawon newydd a rhannu arfer dda. Mae cyflwyno samplau heb wneud yn creu problemau di-anghenraid.

Cymraeg Ail Iaith Uned 2 Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

HAF 2019

Sylwadau cyffredinol

Gydag ail flwyddyn y cwrs newydd TGAU daeth yr her o sefyll uned dau ar ddechrau mis Ebrill. Roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr yn barod wedi sefyll uned un ac wedi ymgynffwrdd â ffordd gwbl newydd o arholi ac yn awr roeddynt yn wynebu uned lafar arall oedd â'i phwyslais ar gyfathrebu ag eraill.

Hoffwn ddiolch yn gyntaf i'r canolfannau am eu gwaith caled. Pleser oedd cael gwrandao ar y mwyafrif helaeth o'r ymgeiswyr yn ymdrechu i arddangos eu hunain ar eu gorau. Rydym i gyd yn gweithio tuag at yr un nod sef rhoi'r cyfle i'r holl ymgeiswyr i ddatblygu sgiliau a strategaethau dysgu iaith a fydd yn eu galluogi i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn eu bywyd pob dydd. Rydym am iddynt weld pwysigrwydd y Gymraeg a'r pwyslais a roddir ar fod yn ddwyieithog, nid yn unig gan eu hathrawon ond gan y Llywodraeth ac ym myd busnes hefyd.

Sylwadau am yr uned

Er bod rhai agweddau o uned dau yn debyg i'r hen fanyleb yn enwedig o ran strwythur, fe wnaed newidiadau pwysig. Ceir tair thema eang yn awr a disgwylir i'r ymgeiswyr ymateb i ddeunyddiau amrywiol ar daflen sbardun megis graffiau, lluniau, symbyliadau, ystadegau, testunau darllen byr ac ati. Roedd yn amlwg bod nifer helaeth o'r canolfannau ar y cyfan, wedi astudio'r fanyleb a'r canllawiau yn fanwl gan ddechrau i'r gofynion yn y ffordd fwyaf buddiol er mwyn i'r ymgeiswyr allu ymateb i'r dasg yn hyderus yn ôl eu gallu. Fel gydag uned un y llynedd, roedd rhaid i ganolfannau uwchlwytho samplau o waith i system Surpass er mwyn i'r tîm safoni ar-lein.

Cafwyd deunaw sbardun i'w defnyddio dros y tridiau – dewis o dri ar gyfer pob cyfnod asesu. Er y gwelid bod rhai topigau yn fwy poblogaidd nac eraill, fe ddefnyddiwyd y rhan fwyaf o'r sbardunau. Cofiwch y pwysigrwydd o ddewis y testun cywir ar gyfer y grŵp cyfan ac yn fwy pwysig fyth, cofiwch fanteisio ar bob cyfle i'r ymgeiswyr gael ymarfer y topigau hyn mewn grwpiau o fewn eu gwersi. Roedd y grwpiau gorau a glywid o ran rhyngweithio yn amlwg wedi hen arfer â'r weithgaredd hon a hefyd wedi arfer â strwythur newydd y daflen symbyliad. Yn anffodus, cafwyd enghreifftiau lle nad oedd yr ymgeiswyr yn cyfeirio prin ddim at y daflen sbardunau ond yn hytrach yn trafod y testun yn gyffredinol. Er bod y sgwrsio yn dda mewn sawl achlysur, roedd rhaid cosbi gan nad oedd cysylltiad â'r daflen o gwbl. Adeiladwch y strwythur yma yn is i lawr yn yr ysgol gan fabwysiadu'r model o sbardunau fel na fydd y math yma o addysgu yn newydd iddynt wrth ddechrau astudio TGAU.

Fel y gwelir yn y fanyleb ac yn y cynllun marcio, mae pwyslais yr uned hon ar gyfathrebu a rhyngweithio. Ar gyfer gwneud hyn yn llwyddiannus, mae'n hanfodol iddynt wrando ar ei gilydd. Gwobrwyir hyn yn ogystal â'r siarad. Gan fod yn rhaid i'r ymgeiswyr gyfeirio at yr hyn a welir ar y daflen, nid yw'n bosib bellach i'r ymgeiswyr ddysgu pytiau ar y cof er yn anffodus gwelwyd bod rhai wedi gwneud hynny ac yna trio eu haddasu ar gyfer yr hyn oedd o'u blaenau. O ran yr agwedd yma mae trafodaethau grŵp a phâr yn gwella. Yr hyn sydd angen canolbwyntio arno nawr o fewn ein canolfannau yw'r pwysigrwydd o rhyngweithio o fewn y grwpiau / paru. Mae nifer fawr yn dal i ganolbwyntio ar eu cyfraniadau unigol yn hytrach na chydadweithio rhwng yr aelodau.

Sicrhewch eich bod fel adrannau yn talu sylw manwl i ofynion y cynllun marcio gwranddo ac yn trafod yn ddwys beth yw ei oblygiadau. Gwelwyd marciau llawer rhy hael ar sawl achlysur o fewn yr agwedd hon. Ar gyfer y marciau uchaf, nid yw'n ddigon iddynt ddweud eu bod yn cytuno / anghytuno ag aelod arall o'r grŵp. Dylai'r goreuon allu gofyn barn ei gilydd, ychwanegu at sylwadau eraill ac ati ac yn wir fe welwyd hyn ar brydiau ymysg y band uchaf. Unwaith eto, mae hon yn sgil sydd rhaid ei haddysgu o fewn y dosbarth.

Ymhlith yr 19,485 o ymgeiswyr cafwyd trawsdoriad eang o ran trafodaethau. Roedd y goreuon o'r rhain yn ysbrydoli ac yn dangos bod cymaint o arfer dda yn digwydd yn ein canolfannau. Roedd yr ymgeiswyr o fewn y bandiau isaf hefyd yn dangos eu bod yn gallu defnyddio rhai strategaethau i gefnogi a chynnal sgwrs ac roedd hyn hefyd yn galonogol. Fe glywyd pobl ifanc yn cyfathrebu ac er nad oedd yr iaith yn berffaith roedd eu brwdfrydedd a'u hyder yn bleser i'w glywed. Gofynnir yn y fanyleb am gyfathrebu yn effeithiol gan ddefnyddio ystod o batrymau brawddegol yn llwyddiannus ac fe gafwyd tystiolaeth o hyn sawl gwaith.

Ni ellid diystyrru rôl yr athro o fewn yr asesiad hwn. Yn wahanol i'r hen fanyleb, fe roddir awgrymiadau am gwestiynau y gellid eu defnyddio er mwyn cynnig cyfle i'r ymgeiswyr ehangu ar eu hymatebion. Fel y nodir ar y daflen copi'r athro / athrawes, "*mae perfformiad ymgeiswyr yn dibynnu ar eu gallu eu hunain*" ond cynghorir athrawon i hwyluso'r broses drwy arwain a gofyn cwestiynau a fydd yn eu galluogi "*i gyrraedd eu potensial*". Cafwyd enghreifftiau ardderchog o hyn ond weithiau cafwyd yr argraff fod nifer wedi cam-ddehongli ystyr yr ymadrodd "*yn ddi-gymell*" gan feddwl fod dim hawl gan athro arwain neu ofyn cwestiynau. Yn sicr, ni ddylai athro gymryd yr awennau oddi wrth yr ymgeiswyr a weithiau roedd gor-ymyrraeth yn arwain yr ymgeiswyr i ffwrdd o'r daflen. Ar y llaw arall, clywyd mewn ambell achos athrawon yn sibwrdd ac yn ysgrifennu yn ystod yr arholiad wrth geisio rhoi cymorth i'r ymgeiswyr. Roedd hyn yn creu pryder ac amheuaeth am ddilysrwydd yr arholiad yn meddwl y safonwyr wrth safoni. Rydyn ni'n gofyn yn garedig i chi sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto. Eto i gyd, lleiafrif bychan oedd yma gyda'r mwyafrif helaeth yn cynnig syniadau a chwestiynau yn agored ac yn effeithiol.

Ymddengys bod athrawon ac ymgeiswyr wedi croesawu'r uned hon a'u bod yn manteisio ar y sbardunau gweledol a dadansoddol i gyfoethogi eu sgwrsiau. Fel y dywedwyd eisoes, y ffordd ymlaen yw meithrin yr agwedd yma o fewn yr addysgu er mwyn galluogi'n pobl ifanc i drafod a siarad yn Gymraeg yn naturiol.

Targedau:

- Sicrhewch bod yr ymgeiswyr yn ymgynefino â thafenni sbardun ar wahanol dopigau yn ystod y cwrs, gan eu hyfforddi ar sut i gyfeirio at y gwahanol agweddau.
- Sicrhewch bod yr ymgeiswyr yn ymwybodol o ac yn defnyddio ymadroddion / cwestiynau allweddol sy'n cyd-fynd â'r uned fel na fydd angen cyfieithu i'r Saesneg e.e. "*Beth sy yn y lluniau?*", "*Beth mae'r graff yn dangos?*", "*Beth mae'r bocys yn dweud?*"
- Ystyriwch rôl yr athro / athrawes o fewn yr uned hon gan arddangos hynny wrth wrando ar grwpiau yn ystod y cwrs.

Cymraeg Ail Iaith Uned 3

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

HAF 2019

Sylwadau cyffredinol

Dyma'r cyfle cyntaf i asesu'r sgiliau darllen ac ysgrifennu fel rhan o'r fanyleb newydd. Mae yma newidiadau mawr yn cynnwys papur di-haen, ystod o gwestiynau amrywiol eu natur gan gynnwys deunyddiau dull PISA a chyfle i bob ymgeisydd gael mynediad i bob rhan o'r papur. Roedd y papur awr a hanner yn cynnwys her ond yn amlwg ddigon roedd yr amseru yn addas i'r ymgeiswyr gan adael iddynt gwblhau'r papur mewn da bryd.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Cwestiwn 1

Dyma gwestiwn sylfaenol i godi hyder ymgeiswyr. Roedd y marciau yn dda gyda'r mwyafrif helaeth yn ennill marciau llawn ond bod ambell un yn parhau i gymysgu rhifau. Yn sgil hyn roedd problemau yn gallu codi gyda nifer y swyddfeydd a'r amser agor. Yn sicr, mae gwybodaeth sylfaenol fel rhifau ac amserau yn gallu ennill neu golli marciau yn syth.

Cwestiwn 2

Cafwyd ail gwestiwn eto yn gofyn i ymgeiswyr ddewis y lluniau priodol, a hynny wrth astudio hysbysebion. Roedd dealltwriaeth amlwg eto o ran y siop ddillad a'r tŷ bwyta ond roedd yna ansicrwydd ar brydiau rhwng Ras y Maer a'r siop chwaraeon.

Cwestiwn 3

Mae cwestiwn cywiro yn cynnig her mewn ffordd gwbl ymarferol. Dyma sgil bwysig i'r gweithle ac i'r dyfodol. Siom felly oedd bod ambell unigolyn heb ddeall sut i ymgymryd â'r dasg. Dyma gyfle i drwytho ymgeiswyr o ran rheolau gramadeg er mwyn iddynt ddeall adeiladwaith ein hiaith.

Roedd y cywiriadau yn amrywio o ran safon, gan gynnwys camgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadeg. Roedd sawl ymgeisydd yn parhau i gamsillafu "*hanes*" a "*Ffrangeg*" ac roedd symud o'r trydydd person i'r person cyntaf yn creu problemau i nifer. Hefyd roedd yn amlwg fod cywiro atalnodi yn estron i sawl un. Dyma'r math o beth fydd yn codi safon gwaith ysgrifennu ymgeiswyr ac felly mae'n sgil ddefnyddiol tu hwnt.

Cwestiwn 4

Nod y cwestiwn hwn oedd cynnig cyfle i ymgeiswyr ddehongli pwyntiau cadarnhaol a phwyntiau negyddol ymgymryd â gwaith rhan amser ac yna iddynt ymateb yn bersonol i'r pwnc dan sylw. Ni chafwyd unrhyw broblemau mawr gyda'r grid ac roedd y mwyafrif yn gallu ffurfio barn bersonol yn ddi-drafferth. Rhaid pwysleisio'r angen i osgoi copio yn slafaid o'r testun wrth gynnig barn gan ganolbwyntio ar rannu barn yr ymgeisydd ei hunan.

Cwestiwn 5

Dengys y cwestiwn hwn ffordd wahanol i'r arfer o gofnodi gwybodaeth ar bapur arholiad, a braf oedd gweld ymateb cadarnhaol ymgeiswyr i'r her. Y rhan gyntaf a greodd yr unig anhawster wrth iddynt beidio â chysylltu y gair "*Beth*" gyda'r angen am farc cwestiwn. Roedd y mwyafrif yn llwyddo i ddehongli canlyniadau'r graff yn ddigon effeithiol ac i fynegi barn ar y

canlyniadau wedyn. Serch hynny, mae ateb cwestiwn yn gywir yn parhau i greu trafferth i nifer gydag arholwyr yn derbyn atebion fel “oes”, “ydy”, “hoffwn” a “na” i enwi ond ychydig.

Cwestiwn 6

Roedd y cwestiwn yma yn trafod pwnc cyfoes ac amserol, sef Cymraeg Campus, sef Siarter Iaith ysgolion cynradd. Roedd yna ddisgwyl i ymgeiswyr ddewis y camau pwysig a'u gosod mewn trefn gyda rhesymau. Llwyddodd y mwyafrif i gofnodi camau synhwyrol a rhannu rhesymau teilwng ond bod eraill wedi cymysgu rhwng y camau a'r lefelau aur, arian ac efydd. Pwysig yw dysgu ymgeiswyr i ddarllen cwestiynau yn ofalus yn lle dyfalu natur y dasg o'u blaenau.

Cwestiwn 7

Rhaid holi a oedd ambell ganolfan wedi paratoi ymgeiswyr ar gyfer yr elfen o gyfieithu gan fod rhai heb ddeall gofynion y dasg o gwbl. Lleiafrif bychan oedd yr ymgeiswyr hyn ond roeddent yn peri pryder i arholwyr. Dyma gyfle eto i ymgeiswyr feistroli rheolau gramadegol a fydd wedyn yn dylanwadu'n gadarnhaol ar safon eu gwaith llafar ac ysgrifennu estynedig. Roedd yr hysbyseb yn gofyn iddynt wahodd eu cynulleidfa i ddysgu Cymraeg a siom oedd i fwyafrif yr ymgeiswyr fethu â ffurfio'r gorchmynnol yn gywir. Rydym yn hapus i ymgeiswyr arall-eirio os yn briodol ond iddynt beidio a newid yr ystyr yn ormodol. Yn wir, defnyddiwyd amrywiaeth o ansoddeiriau i ddisgrifio rhinweddau'r cwrs a'r mwyafrif ohonynt yn gwbl dderbyniol. Roedd safon ymgeiswyr yn amrywio'n fawr ar y cwestiwn hwn a rhaid pwysleisio eto yr angen am ymarfer yn ystod y cyfnod paratoi a chynt.

Cwestiwn 8

Cafwyd trawsdoriad o dasgau unigol yn y cwestiwn hwn er mwyn profi cyfres o sgiliau gwahanol. Roedd y mwyafrif wedi ymdopi â gofynion y grid yn weddol ac yn hyderus wrth chwilio am debygrwydd rhwng y ddwy ferch. Y broblem oedd gwahaniaethu rhwng y wybodaeth oedd yn gywir neu'n anghywir yn yr ail grid. Dyma'r man gwan i nifer a rhaid annog athrawon i adolygu y dull yma o gwestiynu yn rheolaidd fel bod ymgeiswyr yn deall gofynion y dasg yn llawn ac yn medru ymateb yn briodol. Roedd rhan ola'r cwestiwn wedi gofyn i ymgeiswyr ysgrifennu neges at un o'r enillwyr a thrafod eu profiad o ddysgu Cymraeg. Eto roedd y pwyntiau bwled yn bwysig o ran arweiniad ond hefyd o ran marciau. Roedd yr atebion yn amrywio gyda nifer yn ymateb yn hyderus ac yn cynnig gwybodaeth berthnasol a holi'n synhwyrol tra oedd eraill yn cael trafferthion llunio ateb heb ailadrodd manylion y sbardun yn unig.

Cwestiwn 9

Roedd gofyn yma i ymgeiswyr ysgrifennu'n estynedig ar un o ddau bwnc, sef manteision dysgu Cymraeg neu waith gwirfoddol mewn clwb plant. Cafwyd ymatebion amrywiol eu safon a'u hymdrech. Roedd y goreuon yn trafod y pwyntiau bwled yn effeithiol gan ddefnyddio ystod o batrymau iaith a syniadau aeddfed. Yn wir, roedd yn bleser i'w darllen. Llwyddodd y mwyafrif i roi cynnig ar ateb y dasg ond bod gwybodaeth ieithyddol ambell un yn gyfyng ac eraill yn defnyddio iaith fratiog a gwallus. Rhaid nodi pwysigrwydd y pwyntiau bwled ar gyfer y cwestiwn hwn gan fod marciau penodol ar gyfer y rhannau unigol. Yn sgil hyn nid oes modd i'r marc mynegiant fod yn uwch na'r marc cynnwys ac felly dyma sefyllfa lle mae ymgeisydd yn gallu colli marciau yn ddi-angen wrth beidio ag ymateb i ofynion y dasg.

Targedau:

Nodwyd yr angen i:

- Sicrhau bod sylw yn cael ei rhoi i'r sgiliau cyfieithu a chywiro er mwyn gwella safon iaith ymgeiswyr ond hefyd er mwyn iddynt ddeall rheolau gramadeg sylfaenol.
- Arbrofi gyda dulliau darllen PISA gwahanol er mwyn meithrin dealltwriaeth ymgeiswyr o ddarnau penodol.
- Adolygu patrymau brawddegol sylfaenol a dulliau mynegi barn a rhesymu fel bod modd i bob ymgeisydd ymateb i'r tasgau ysgrifennu.
- Cynnig cyfleoedd i ymgeiswyr ymarfer ysgrifennu estynedig yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn er mwyn iddynt deimlo'n hyderus wrth wynebu'r tasgau olaf ar yr uned hon.

Cymraeg Ail Iaith Uned 4
Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

HAF 2019

Sylwadau cyffredinol

Rhaid canmol ymdrechion yr ymgeiswyr o bob gallu boed yn rhai is eu gallu neu'r rhai mwyaf galluog. Mae defnydd iaith y goreuon yn argyhoeddi'n dda ar gyfer eu defnydd o'r Gymraeg yn y dyfodol mewn gwersi Cymraeg Ail Iaith Uwch Gyfrannol ac yn eu defnydd o'r iaith yn y gymuned ehangach.

Roedd hi'n amlwg bod y gweiniaid yn rhwystredig oherwydd eu hanallu i ymateb i destunau syml ac yn enwedig y rhai mwyaf heriol. Yn aml roedd yr ymgeiswyr hyn yn cael anhawster i ddefnyddio cystrawennau syml ac wrth gwrs, dydy hyn ddim o ganlyniad i ddiffyg ymrwymiad a brwdfrydedd eu hathrawon ond yn aml oherwydd prinder oriau cyswllt ar amserlen yr ysgol.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Cwestiwn 1

- A1 (i) Cwblhaodd mwyafrif yr ymgeiswyr y dasg sylfaenol, ddi-iaith hon gan brofi dealltwriaeth o eiriau syml ar destunau cyfarwydd megis bwyd ac ysgol. Yn hytrach na thicio'r atebion cywir, roedd nifer fechan o ymgeiswyr yn nodi geiriau o'r darnau darllen yn y gridiau ateb ac felly yn methu ag ennill marciau.
(4 x 1 marc am dicio'r atebion cywir)
- A1 (ii + iii) Cafwyd ymateb da i'r cwestiynau hyn ar y cyfan gydag ymgeiswyr yn ymdrechu i danlinellu'r brawddegau cywir. Roedd nifer fechan o ymgeiswyr yn tanlinellu mwy nag un frawddeg o blith y tri dewis ac yna doedd dim modd gwobrwyo marciau.
(2 + 2 marc am danlinellu'r brawddegau cywir – cyfanswm o 4 marc)
- A1 (iv) Yma hefyd, cafwyd ymateb da i'r rhan hon o'r cwestiwn gyda nifer sylweddol o ymgeiswyr yn gallu deall y gosodiad a'r cwestiwn ac ymateb gyda rhesymau cywir o'r darnau darllen. Cafodd ambell i ymgeisydd ei daflu gan y ffaith bod y gosodiad a'r cwestiwn yn uniaith Gymraeg ond dyma ran o her y cwestiwn hwn ac yna mae angen i ymgeiswyr ymarfer sut i ymateb yn Gymraeg i osodiadau Cymraeg syml.
(1 + 1 marc am resymau cywir i gefnogi'r gosodiad yn y cwestiwn)

Enghreifftiau o atebion lle gwobrwyir marc:

Mae e'n/ Mae Patrick yn hoffi bwyta bwyd iachus.

Patrick yn hoffi gwersi ymarfer corff/ yn mynd i glwb chwaraeon.

Katya yn hoffi byrger.

Prin iawn oedd yr ymatebion Saesneg ond i'r sawl a wnaeth, doedd dim modd gwobrwyo marc.

Cwestiwn 2

- A2 Cafwyd ymateb da i'r cwestiwn hwn ar y cyfan gyda nifer helaeth o ymgeiswyr yn llwyddo i gael marciau am nodi'r atebion cywir yn y grid. Fel cwestiwn A1, darn darllen eithaf syml oedd ar y papur yn defnyddio geirfa syml ar destunau cyfarwydd ar fwyd a bod yn iach. Bu i ambell ymgeisydd roi ticiau yn y grid yn hytrach na nodi'r ateb mewn geiriau yn Gymraeg ac yna yn methu â chael marciau.
(4 x 1 marc am nodi'r wybodaeth gywir yn y grid)

Cwestiwn 3

- A3 (i) Ar y cyfan cafwyd ymateb da i'r rhan hon o'r cwestiwn. Yn amlwg mae nifer helaeth o ymgeiswyr wedi arfer â gofyn cwestiynau yn Unedau 1, 2 a 3 ac felly wedi llwyddo i ofyn cwestiynau cyfathrebol. Roedd nifer o ymgeiswyr yn ysgrifennu cwestiynau eithaf gwallus ond cwestiynau digon cyfathrebol i allu ennill marc.
(1 marc am gwestiwn cyfathrebol)

e.e.

Wyt ti'n bwyta llysiau gwyrdd/sglodion?

Pam wyt ti'n bwyta siocled?

Pam ti bwyta cacen?

Beth bwyta brechwast?

Prin iawn oedd yr ymatebion Saesneg i'r rhan hon o'r papur ond i'r sawl a wnaeth, doedd dim modd gwobrwyo marc.

- A3 (ii) O'r tair rhan i gwestiwn A3, dyma'r un lle roedd ymgeiswyr yn gallu mynegi eu hunain orau. Defnyddiwyd amryw o frawddegau safonol i fynegi eu hunain gyda'r goreuon yn ymestyn eu brawddegau i gynnig rhesymau uchelgeisiol.
($1 + \sqrt{\quad} = 2$ am frawddeg gyfathrebol yn nodi sut maen nhw'n cadw'n heini)

Prin iawn oedd yr ymatebion Saesneg i'r rhan hon o'r papur.

(Brawddegau 0 marc cynnwys a 0 marc mynegiant)

I play rugby.

Dw i play sports with ffrindiau.

I eatio banana achos healthy.

(Brawddegau 1 marc cynnwys a 0 marc mynegiant)

Chwarae hoci.

Rywd bwyta salad.

Fi gwneud gemau heini.

(Brawddegau 1 marc cynnwys ac 1 marc mynegiant)

Rydw i'n chwarae pêl-droed.

Dw i'n rhedeg.

Bydda i'n cadw'n heini efo/gyda fy ffrindiau achos rydyn ni'n mynd i'r gampfa ar y penwythnos.

Rydw i hoffi cadw'n heini. Chwaraeais i hoci efo/gyda tim ysgol dydd Llun, sôn am iach.

A3 (iii) Fel gyda chwestiwn A3ii, cafwyd ymatebion da ar y cyfan i'r cwestiwn hwn. Defnyddiwyd amryw o frawddegau safonol i fynegi eu hunain gyda'r goreuon yn ymestyn eu brawddegau i gynnig rhesymau uchelgeisiol.
($1 + \sqrt{\quad} = 2$ am frawddeg yn cynnig cyngor i Rhian)

Prin iawn oedd yr ymatebion Saesneg i'r rhan hon o'r papur.

(Brawddegau 0 marc cynnwys a 0 marc mynegiant)

Play sports because it's healthy.

Eat salad.

Pêl-droed.

(Brawddegau 1 marc cynnwys a 0 marc mynegiant)

Mae Rhian bwyta salad.

Dylet ti Rhian chwarae chwaraeon.

Rhian myndais nofio.

(Brawddegau 1 marc cynnwys ac 1 marc mynegiant)

Bwyta salad. (derbyn bwyta fel ffurf gorchmynnol anffurfiol y ferf bwyta)

Rhaid i ti gadw'n heini bob wythnos.

Mae'n bwysig i ti fwyta bwyd iach a gwneud ymarfer corff achos mae'n bwysig edrych ar ôl y corff.

Cwestiwn 4

A4 (i) Cafwyd ymateb da i'r cwestiwn hwn ar y cyfan gyda nifer helaeth o ymgeiswyr yn llwyddo i gael marciau am nodi'r atebion cywir yn y grid. Yn wahanol i gwestiynau A1 ac A2, roedd y gerdd yn cynnig mwy o her ar y testun ffasiwn.

Bu i ambell ymgeisydd roi ticiau yn y grid yn hytrach na nodi'r ateb mewn geiriau yn Gymraeg ac yna yn methu â chael marciau.
(4 x 1 marc am nodi'r wybodaeth gywir yn y grid)

Dylid hyfforddi ymgeiswyr i adnabod gofynion tasg darllen a deall ac ymgyfarwyddo â geirfa cwestiwn megis *ticiwch, atebwch, tanlinellwch, nodwch*.

- A4 (ii) Cwestiwn lle roedd angen i'r ymgeiswyr benderfynu a oedd 3 gosodiad yn deillio o'r gerdd yn gywir neu'n anghywir. Dull ateb y cwestiwn hwn oedd drwy dicio os oedd gosodiad yn gywir neu'n anghywir. Prin oedd y sgrïptiau lle doedd ymgeiswyr ddim wedi gwneud ymdrech i ateb y cwestiwn hwn ond mae angen i ymgeiswyr ymarfer a dod i arfer gyda'r eirfa megis *cywir* ac *anghywir* ac ymateb i osodiadau uniaith Gymraeg mewn dull di-iaith.
(3 x 1 marc am dicio'r ateb cywir)
- A4 (iii) Cafodd nifer o ddisgyblion anhawster wrth ateb y cwestiwn hwn am nad oedden nhw'n defnyddio'r eirfa ddisgwyliedig wrth ymateb. Mae angen i ymgeiswyr arfer ag ateb cwestiynau o'r fath yn defnyddio'r eirfa gywir.
(1 marc am ymateb cyfathrebol cywir)

Atebion lle gwobrwyir marc:

ydw, nac ydw, ydw a nacydw, na, wrth gwrs, yn bendant, yn sicr, heb os, weithiau, dw i'n debyg, dw i'n wahanol

Atebion lle doedd dim modd gwobrwyo marc:

ydy, nac ydy, ydyn, nac ydyn, ydych, nac ydych, oes, nac oes, ie, tebyg, (g)wahanol, rydw i'n cytuno, rydw i'n anghytuno

- A4 (iv) Dyma ran anoddaf y cwestiwn ac y goreuon oedd yn ymateb yn gywir gan amlaf. Roedd hyn i'w ddisgwyl oherwydd lefel her y cwestiwn. Er mwyn cael marc, roedd rhaid i'r rheswm gyd-fynd ag ateb positif neu negyddol A4iii.
(1 marc am ateb cyfathrebol yn cyfeirio at y wybodaeth yn y gerdd/ profi dealltwriaeth o'r gerdd)

Roedd modd gwobrwyo marc i A4iv hyd yn oed os na chafodd yr ymgeisydd farc am eu hateb yn A4iii.

Atebion lle gwobrwyir marc:

(Ydw) Dwi'n meddwl bod grysau-T sy'n hongian a jîns henffasiwn yn blêr hefyd.

(Wrth gwrs) Dw i'n meddwl mae'n bwysig i edrych yn trendi a cŵl.

(Na) Dwi'n meddwl bod dillad yn rhy ddrud a dwi'n hoffi gwisgo jîns.

(Rydw i'n wahanol) Mae'n well gen i wario arian ar gemau PS4 ar y wê.

Atebion lle doedd dim modd gwobrwyo marc:

(Ydw) Dwi'n hoffi gwisgo dillad Matalan.

(Heb os) Mae'n gas gen i ffasiwn.

Unrhyw frawddeg ble defnyddid geiriau Saesneg.

Cwestiwn 5

A5. Dyfarnwyd 5 marc am gyflwyno 5 ffaith yn ymateb i'r 4 pwynt trafod yn y cwestiwn. Dyfarnwyd 5 marc am ddefnyddio cystrawennau yn gywir gyda rhesymau i gefnogi barn. Er mwyn cael y 5 marc mynegiant, roedd angen i'r ymgeiswyr gynnig rheswm/rhesymau uchelgeisiol yn ogystal â defnyddio 3 cystrawen wahanol. (5 marc cynnwys a 5 marc mynegiant = cyfanswm o 10 marc)

Mae'r cwestiwn yn sicrhau bod angen defnyddio 3 cystrawen wahanol er mwyn ateb y cwestiwn yn llwyddiannus. O ran dyfarnu marciau iaith mae'r pwyslais ar ddefnyddio brawddegau sylfaenol yn gywir gan anwybyddu manion treiglo.

Llwyddodd mwyafrif yr ymgeiswyr i ymateb i bwyntiau 1, 2 a 4 y cwestiwn yn eithaf llwyddiannus gan ennill marciau am gynnwys ac am fynegiant.

Cafodd nifer o ymgeiswyr anhawster wrth ymateb i bwynt 3 oherwydd diffyg hyder yn defnyddio'r amser gorffennol. Yn aml, gwobrwyir marc cynnwys am bwynt 3 ond doedd dim modd gwobrwyo marc mynegiant.

Pwynt 3 – *Beth brynoch chi ddiwethaf?*

Atebion lle gwobrwyir marc cynnwys a mynegiant:

Prynais i grys-t yn Next.

Prynon ni gêm Xbox yn Game.

Ces i dillad newydd o Primark.

Atebion ble gwobrwyir marc cynnwys ond ddim marc mynegiant.

Brynoch chi grys-t yn Next.

Brynoch fi gêm Xbox yn Game.

Shopais i bwyd.

At ei gilydd, dyma'r camgymeriadau mwyaf amlwg i'w hosgoi:

Dw i'n ddim yn hoffi . . .

Fy hoff _____ yn . . .

Fy nghas _____ yn . . .

Mae _____ ydy . . .

Cwestiwn 6

- A6. Dyfarnwyd 8 marc am gyflwyno 8 ffaith yn ymateb i'r 3 phwynt trafod yn y cwestiwn. Dyfarnwyd 7 marc am ddefnyddio cystrawennau yn gywir o fewn brawddegau. (8 marc cynnwys a 7 marc mynegiant = cyfanswm o 15 marc)

Mae'r cwestiwn yn sicrhau bod angen defnyddio 5 cystrawen wahanol er mwyn ateb y cwestiwn yn llwyddiannus. O ran dyfarnu marciau iaith mae'r pwyslais ar ddefnyddio brawddegau sylfaenol yn gywir gan anwybyddu manion treiglo.

O ran mynegiant roeddem yn edrych am y gallu i:

- gyfathrebu'n ystyrllon gan wneud ymdrech i ddefnyddio brawddegau
- amrywio patrwm y frawddeg i bwrpas
- defnyddio'r ferf ac amser y ferf yn briodol
- defnyddio gerifa addas sy'n cyfrannu at gyfathrebu ystyrllon llwyddiannus.

Oherwydd natur fwy heriol y cwestiwn o ran testun a phwyntiau trafod mwy uchelgeisiol, cafodd nifer o ymgeiswyr anhawster i gyrraedd mwy na hanner marciau. Er bod ymgeiswyr wedi profi eu gallu i ddefnyddio cystrawennau amrywiol yn A5 a C9, roedd tuedd yn yr ymatebion i A6 i ddefnyddio yr un gystrawen droeon. Roedd tuedd i ddefnyddio "*Mae*" ac felly doedd dim modd gwobrwyo llawer o farciau mynegiant.

Dylid hyfforddi ymgeiswyr i amrywio cystrawennau ac amseroedd y ferf o fewn darnau ysgrifennu estynedig. Yr ymgeiswyr gorau a lwyddodd i wneud hyn ac ennill y marciau uchaf.

Serch hynny, rhaid canmol yr ymgeiswyr am eu hymdrechion i ymateb i gwestiwn mwy heriol a braf oedd darllen eu barn ar bwnc llosg fel problemau technoleg.

Cwestiwn 7

- B7 (i) Oherwydd bod yr iaith yn y grid yn fwy uchelgeisiol na'r iaith yng ngridiau A1i, A2i ac A4i roedd llai o ymgeiswyr yn llwyddo i ennill marciau llawn ond rhaid canmol y nifer helaeth ohonynt am geisio ymateb. (4 x 1 marc am dicio'r atebion cywir)

- B7 (ii) (1 marc am enwi un o'r 4 person)

Oherwydd mai cwestiwn darllen a deall oedd hwn, roedd deall geiriad y cwestiwn yn rhan o'r her ac yna'n herio'r disgyblion canolig a'r goreuon – dyna oedd y nod. Serch hynny, dylid hyfforddi ymgeiswyr o bob gallu i adnabod geiriau megis *pwyl? ble? pryd?* er mwyn gallu ymateb i gwestiynau tebyg.

- B7 (iii) Braf oedd gweld bod nifer o ymgeiswyr wedi dyfalbarhau ac ymdrechu i ymateb i'r cwestiwn hwn. Yr ymgeiswyr gorau oedd yn llwyddo i ennill 4 marc. (2 marc yr un am nodi 2 broblem yn wynebu'r cymeriad ag enwir gan yr ymgeisydd yn B7ii)

Er mwyn ennill y 4 marc yma, roedd rhaid i'r rhesymau gyd-fynd gyda'r enw a nodwyd yn B7ii. Doedd dim modd gwobrwyo marciau os nad oedd y problemau yn cyd-fynd â'r enw.

Roedd modd gwobrwyo marciau B7iii hyd yn oed os na chafodd yr ymgeisydd farc am eu hateb yn B7ii cyn belled â bod y problemau yn amlwg yn perthyn i gymeriad yn y darnau darllen e.e.

(Tahneen) Dim (llawer o) arian; pwysau cyfoedion.

(Ben) Ysmygu; methu stopio; eisiau stopio ysmygu.

(Mrs Thorne) Disgyblion diog (yn ei hysgol); pobl ifanc yn gwastraffu amser.

(Llinos) Ddim eisiau mynd i Florida/ar wyliau efo/gyda ei chwaer; ddim yn gallu fforddio mynd i Sbaen.

- B7 (iv) Dyma ran fwyaf heriol y cwestiwn darllen hwn ond rhaid canmol ymdrechion yr ymgeiswyr am wneud ymdrech i ysgrifennu brawddegau cyfathrebol yn cynnig cyngor i'r cymeriadau. Roedd y cwestiwn tu hwnt i nifer o ymgeiswyr is eu gallu ond llwyddodd nifer o ddisgyblion canolig a'r rhai mwyaf galluog i ennill marciau da gyda'r goreuon yn llwyddo i gynnig cyngor yn hyderus gan ddefnyddio cystrawennau cywir ac uchelgeisiol.
(2 farc yr un am frawddeg gyfathrebol yn cynnig cyngor i bob un o'r 4 cymeriad)

Cwestiwn 8

- B8 (i) (1 marc am ymateb cyfathrebol cywir)

Fel gyda A4iii cafodd nifer o ddisgyblion anhawster wrth ateb y cwestiwn hwn am nad oedden nhw'n defnyddio'r eirfa ddisgwylidig wrth ymateb. Mae angen i ymgeiswyr arfer ag ateb cwestiynau gan ddefnyddio'r eirfa gywir.

Atebion lle gwobrwyir marc:

ydw, nac ydw, ydw a nacydw, na, wrth gwrs, yn bendant, heb os, weithiau, dw i'n debyg, dw i'n wahanol

Atebion lle doedd dim modd gwobrwyo marc:

ydy, nac ydy, ydyn, nac ydyn, ydych, nac ydych, oes, nac oes, rydw i'n cytuno, rydw i'n anghytuno

- B8 (ii) Oherwydd bod ymgeiswyr wedi arfer ag ymateb i osodiadau yn Unedau 1, 2 a 3, ymdrechodd nifer fawr o ymgeiswyr i ysgrifennu ymatebion cyfathrebol gyda'r goreuon yn llwyddo i gefnogi eu safbwynt gyda rhesymau uchelgeisiol.

Atebion lle gwobrwyir marciau:

(Ydw) Mae dysgu sgiliau yn yr ysgol yn bwysig.

(Ydw) Mae athrawon yn helpu mwy na pobl yn ble dw i'n gweithio.

(Nac ydw) Mae gwaith rhan amser yn dysgu sgiliau pwysig fel gweithio mewn tim.

(Nac ydw) Mae mynd i glwb yn helpu pobl ifanc i wneud ffrindiau a dysgu sgiliau cyfathrebu.

Yn aml, roedd ymgeiswyr yn colli marciau am wrth-ddweud eu hateb i B8i ac yna doedd dim modd gwobrwyo marciau e.e.

(Ydw) Mae gwaith rhan amser yn bwysig hefyd.

(Ydw) Mae ysgol yn ddiflas.

(Nac ydw) Mae ysgol yn dysgu sgiliau pwysig.

(Nac ydw) Mae'n well gen i ysgol na mynd i glwb a gwneud gwaith rhan amser.

Cwestiwn 9

C9 (12 marc cynnwys ac 13 marc mynegiant – uchafswm o 25)

Cafwyd ymatebion diddorol i'r ddau destun. Wrth gwrs, roedd y safon yn amrywio oherwydd bod ystod eang o allu ieithyddol yn Uned 4. Roedd gwaith y goreuon yn ardderchog a braf oedd darllen barn yr ymgeiswyr a phrofi eu gallu i ddefnyddio iaith yn rhydd, hyderus a chreadigol. Roedd gan nifer helaeth afael bendant ar hanfodion yr iaith ac yn aml, roedd modd gweld eu bod nhw wedi cynllunio eu gwaith yn drefnus.

O ran cynnwys roeddem yn edrych am:

- ymdriniaeth ddiddorol a chynhwysfawr o'r testun
- dilyniant rhesymegol i'r syniadau a'r farn
- ymdrech i fynegi barn a chefnogi eu safbwyntiau gyda rhesymau amrywiol ac uchelgeisiol
- ymdrech i fod yn uchelgeisiol o ran syniadau ac ymateb yn greadigol i'r testun dewisol.

O ran mynegiant roeddem yn edrych am:

- y gallu i gyfleu syniadau a barn yn llwyddiannus
- y gallu i amrywio patrwm y frawddeg i bwrpas
- geirfa addas a chymwys i ddelio â'r testun
- cywirdeb ac ymdrech i ymgyrraedd at gysondeb o ran amserau'r ferf
- ymdrech i greu naws ac awyrgylch priodol trwy ddefnyddio idiomau, cymariaethau a chwestiynau rhethregol.

I godi safonau dylai ymgeiswyr canolig eu gallu:

- (i) geisio codi safon cywirdeb eu cystrawennau sylfaenol gan osgoi camgymeriadau megis:
 - Dw i'n ddim yn . . .
 - Dw i'n wrth fy modd . . .
 - Achos fi'n hoffi . . .
 - Gwisg ysgol ydy ofnadwy
 - Y iaith Cymru ydy arbennig
 - Es i mynd
 - Myndwch i.

- (ii) sicrhau eu bod yn ateb gofynion y cwestiwn drwy ddilyn y pwyntiau cynnwys. Y duedd gan nifer o ymgeiswyr oedd canolbwyntio ar un elfen o'r testun yn unig.

e.e. traethawd ar bynciau ysgol – hoff a chas neu draethawd ar ardal yn hytrach na gwyliau yng Nghymru.

Targedau:

I grynhoi felly, dylai ymgeiswyr:

- Ymarfer eu gallu i ymateb i gwestiynau a gosodiadau syml uniaith Gymraeg.
- Ymarfer eu gallu i ymateb i osodiadau a chwestiynau yn defnyddio geirfa briodol fel nodir yn sylwadau A4i, A4iii, B8i.
- Ymgyfarwyddo â geiriad cwestiynau Cymraeg megis *tanlinellwch*, *atebwch*, *nodwch*, *ticiwch*.
- Sicrhau eu bod nhw'n amrywio patrymau brawddegol ac amseroedd y ferf wrth rifennu darnau estynedig gydag ymdrech i gynnwys idiomau a chwestiynau rhethregol.
- Peidio â defnyddio geiriau Saesneg o gwbl; yn hytrach, defnyddio geirfa Gymraeg, waeth pa mor sylfaenol er mwyn mynegi eu hunain yn Gymraeg.



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Ffôn: 029 2026 5000
Ffacs: 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk